

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor Ysgol Gynradd
Cilfynydd**

Dydd Llun, 19 Tachwedd am 2.30pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant

Lisa Howell (LH), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Tim Britton (TB), Uwch Ymgynghorydd Her

Sophie Nicholls (SN), Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

10 disgybl - aelodau o Gyngor Ysgol Gynradd Cilfynydd

Esboniodd ET fod y Cyngor yn awyddus i ad-drefnu rhai o'r ysgolion ym Mhontypridd. Byddai'r newidiadau yn cynnwys creu ysgolion 3-16 newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Rhydfelen a symud darpariaeth chweched dosbarth ysgolion i chweched dosbarth mwy o faint yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

Roedd ET wedi manylu ar y cynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Cilfynydd, sef cau'r ysgol yn dod yn rhan o Ysgol 3-16 Pontypridd. Byddai'r disgyblion yn rhan o ysgol fwy o faint a fyddai dim rhaid iddyn nhw symud wrth gyrraedd oedran ysgol uwchradd. Esboniodd ET, er y byddai'r plant yn rhan o un ysgol, byddai'r disgyblion iau ar wahân i'r disgyblion hŷn a byddai ganddyn nhw iard eu hunain i chwarae arni. Byddai gan ddisgyblion ystafelloedd dosbarth newydd neu wedi'u hadnewyddu. Hefyd, bydd modd iddyn nhw ddefnyddio rhai cyfleusterau arbenigol megis y neuadd chwaraeon, y caeau chwarae, labordai gwyddoniaeth, ystafelloedd TG o oedran iau.

Esboniodd ET mai pwrpas y cyfarfod gyda'r disgyblion heddiw oedd i'r Cyngor glywed a chofnodi safbwyntiau'r disgyblion am y cynigion, gan fod eu barn yn bwysig iawn i'r Cyngor.

Gofynnodd ET i'r disgyblion a oedd ganddyn nhw unrhyw gwestiynau am y cynigion.

C. Sut ydych chi'n mynd i wneud yn siŵr ein bod ni'n derbyn addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif yn yr ysgol newydd?

A. Byddwn ni'n gwario llawer o arian ar yr adeiladau, ond dydyn ni ddim wedi penderfynu eto beth fydd yn digwydd i'r adeiladau gan mai hwn yw dechrau'r broses. Os bydd yr aelodau etholedig yn pasio hyn, byddai'r disgyblion yn symud i'r ysgol newydd yn 2022. Byddwn ni'n gosod llawer o offer TGCh newydd yn yr ysgol a byddech chi'n gallu cael mynediad at y cyfleusterau eraill megis y labordai gwyddoniaeth. Bydd gyda chi hefyd fynediad i'ch ardal chwarae fawr eich hunain a'r caeau chwarae glaswellt.

A. Bydd gyda chi ystafelloedd dosbarth braf newydd a byddwn ni'n sicrhau bod

gyda chi'r athrawon gorau, gan fod gyda chi athrawon da ar hyn o bryd. Bydd gyda chi adnoddau newydd rhagorol yn eich dosbarthiadau.

- A. Rydyn ni hefyd yn edrych ar yr amgylchedd. Os oes modd, byddwn ni'n gosod technoleg sy'n arbed ynni yn yr adeilad hefyd.

C. Pa adnoddau awyr agored fyddwch chi'n eu rhoi yn yr ysgol newydd?

- A. Yn gyntaf, mae angen inni fynd i weld beth sydd yno nawr. Mae'r cyfleusterau sydd yno ar hyn o bryd ar gyfer plant hŷn felly byddai angen i ni wneud llawer o waith i sicrhau ei fod yn ddiogel i ddisgyblion iau. Mewn ysgolion tebyg eraill, rydyn ni wedi rhoi ffensys, ystafelloedd dosbarth awyr agored a mannau chwarae meddal ar gyfer y disgyblion iau. Mae cyfleusterau eraill i chi eu defnyddio, er enghraifft y caeau chwarae glaswellt. Beth hoffech i ni ei roi yno?

Disgyblion - Cwrt pêl-rwyd. Cae pêl-droed. Hoffwn ni gael maes chwarae 'Trim Trail' hefyd. Hoffwn ni gael rhywfaint o laswellt hefyd. Rwy'n hoffi ymarfer corff, felly efallai bod modd i chi roi cyfleusterau ymarfer corff tu allan.

C. Sut fydddech chi'n gwneud yn siwr bod y plant iau'n ddiogel yn yr ysgol newydd?

- A. Gofynnodd llawer o rieni'r cwestiwn yma i ni pan wnaethom ni adeiladu'r ysgolion newydd. Bydd yr holl ardaloedd chwarae'n hollol ar wahân. Mae yna adeilad mawr yno nawr. O bosibl, bydd modd i ni symud rhai o'r ardaloedd o gwmpas er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn addas ar eich cyfer chi a bod gan ddisgyblion o oedran cynradd eu hardaloedd chwarae, eu toiledau a'u neuadd eu hunain.

- A. Bydd modd i chi rannu rhai ardaloedd ond dim ond pan mae eich athrawon gyda chi.

C. Mae yna lawer o ffyrdd yno. Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn ddiogel yn cerdded i'r ysgol newydd ac oddi yno?

- A. Rydyn ni'n gofyn i arbenigwyr ddod i edrych ar deithiau pawb i'r ysgol. Maen nhw'n edrych ar bafinau, nifer y ceir a lle fyddwch chi'n croesi'r ffordd. Bydden nhw'n sicrhau ei fod yn ddiogel i chi fynd i'r ysgol. Maen nhw wedi rhoi twmpathau cyflymder yn y Porth i wneud yn siwr bod ceir yn mynd yn araf wrth yr ysgol. Mae dwy groesfan sebra yn y Porth hefyd. Weithiau bydden nhw'n gwneud i ni godi croesfan pâl gyda goleuadau gwyrdd a coch siâp dyn. Maen nhw'n ystyried hyn yn barod a bydden nhw'n rhoi cyngor i ni am sut i wneud y safle mor ddiogel â phosibl i chi. Bydd yn rhaid i ni wneud beth bynnag maen nhw'n dweud oherwydd eich diogelwch chi yw'r peth pwysicaf i ni.

ET - Ydy unrhyw un ohonoch chi'n croesi'r ffordd ar hyn o bryd pan fyddwch chi'n dod i'r ysgol?

Disgybl - Ydw, ac mae'n rhaid i mi edrych y ddwy ffordd.

ET - Mae pafinau ar y ffordd ac mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eich bod chi'n croesi'n ddiogel hefyd ac eich bod chi'n defnyddio unrhyw groesfannau newydd

fyddwn ni'n eu hadeiladu. Mae'n bosibl byddwn ni'n adeiladu mesurau arafu traffig hefyd.

C. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod plant iau yn teimlo'n ddiogel yn ystod amser egwyl ac amser cinio?

- A. Bydd meysydd chwarae arbennig ar eich cyfer chi a bydd ffensys o'u hamgylch. Bydd eich athrawon a'ch staff cymorth gyda chi hefyd yn gofalu amdanoch chi. Yn llawer o'n hysgolion 3-16, mae gan ddisgyblion iau amseroedd chwarae gwahanol i'r disgyblion hŷn. Bydd goruchwylwyr drwy'r amser hefyd. Os ydych chi'n poeni am rywbeth, mae rhai plant ar gael i siarad â chi. Mae'r system yn debyg i'ch system 'mainc cyfeillio' sydd gyda chi yn eich ysgol bresennol. Bydd dim byd yn yr ysgol newydd fydd yn eich gwneud chi deimlo'n anghyfforddus ond os bydd, sut fyddwch chi'n ymateb?

Disgybl - Dweud wrth athro.

TB - Ie, dyna'r ffordd orau i ymateb. Rhaid i chi ddweud os dydych chi ddim yn teimlo'n ddiogel a bydd eich athrawon yn gallu ymateb.

ET - Mae gan ddisgyblion oedran ysgol uwchradd wersi bob prynhawn fel arfer, felly byddai'n rhaid i'r Pennaeth a'r staff benderfynu pryd mae amseroedd chwarae ar gyfer y disgyblion iau.

C. Ble bydd yr adran gynradd yn cael ei lleoli ar y safle?

- A. Dydyn ni ddim yn gwybod eto. Byddwn yn mynd i'r ysgol ac yn edrych ar y safle. Mae angen inni sicrhau bod lle awyr agored braf yn yr ysgol newydd a bod modd i ni ei wneud yn ddiogel ar eich cyfer chi. Efallai bydd angen i ni adeiladu rhannau newydd i'r adeiladau megis neuadd neu ffreutur newydd. Rydyn ni'n ystyried hyn. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad cynllunio. Bydd hyn yn achlysur agored ar gyfer eich teuluoedd ac yn gyfle i chi roi eich barn am y cynllun a chynnig eich syniadau.

Rydyn ni eisiau clywed eich syniadau bryd hynny hefyd.

C. Beth fydd enw'r ysgol newydd?

- A. Ddim ni fydd yn penderfynu hyn. Bydd y corff llywodraethu newydd yn cynnig syniadau a bydd yr aelodau etholedig lleol yn penderfynu beth fydd enw'r ysgol. Efallai bydd yn cynnwys 'Pontypridd' yn ei henw, yn yr un modd a mae Ysgol Gymuned Tonyrefail wedi cadw enw'r pentref. Mae Coleg Cymuned Tonypanyd wedi newid ei enw i Ysgol Nantgwyn. Mae croeso i chi gynnig eich syniadau i'r llywodraethwyr.

Gofynnodd y llywodraethwyr newydd yng Nghwmaman i'r disgyblion beth hoffan nhw alw'r ysgol ac yna cafodd pleidlais ei chynnal. Yna pleidleisiodd y Cyngor ar yr opsiwn olaf.

ET - Ydych chi'n credu dylai'r ysgol gadw 'Pontypridd' yn ei henw?

Disgyblion - Ydyn.

C. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod yr ysgol newydd wrth wraidd y gymuned yng Nghilfynydd?

- A. Pan rydyn ni'n adeiladu ysgolion newydd, rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n adeiladu lleoedd newydd i'r gymuned. Rydyn ni'n galw'r ysgolion newydd yma'n ysgolion cymunedol. Mae hynny'n golygu ein bod ni am sicrhau bod modd i bobl o'r gymuned ddefnyddio rhai o'u cyfleusterau. Bydd y cyfleusterau yma mewn ardal sydd ar wahân i'r ysgol er mwyn sicrhau eich bod chi'n ddiogel. Mae gyda ni gyfleusterau awyr agored fel caeau 3G. Mae timau cymunedol yn cadw lle i'w defnyddio ar gyfer hyfforddiant a phartïon. Y grwpiau cymunedol a'r ysgolion fydd yn penderfynu sut maen nhw'n cael eu defnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi hanner yr arian i ni ar gyfer yr ysgol a bydden nhw'n sicrhau ein bod ni'n rhoi'r cyfleusterau hynny ar waith.

Athro - Does dim grwpiau'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd.

C. Beth fydd yn digwydd i'r ysgol yma ar ôl i ni symud?

- A. Byddai'n rhaid cymeradwyo'r cynnig yma'n gyntaf, ond dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd iddi eto. Beth ydych chi'n meddwl dylai ddigwydd?

Disgybl - Dylai barhau i fod yn ysgol.

ET - Dydyn ni ddim yn gwybod beth fydd yn digwydd eto. Mae rhai ysgolion yn cael eu defnyddio ar gyfer pethau eraill, megis clybiau. Weithiau maen nhw'n cael eu dymchwel ac mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adeiladu tai. Mae'n dibynnu ar gyflwr yr adeilad. Adran Eiddo Corfforaethol y Cyngor fydd yn penderfynu beth i'w wneud â'r adeilad. Bydden nhw ddim yn ei gadael yn wag rhag ofn iddi gael ei fandaleiddio.

C. Pam rydych chi am ddymchwel yr ysgol?

- A. Dydyn ni ddim yn gwybod beth fyddwn ni'n gwneud eto ond, fel dywedais i, rydyn ni'n edrych ar gyflwr ysgolion ac mae lleoedd gwag yn Ysgol Uwchradd Pontypridd sy'n costio llawer o arian. Mae'r adeiladau'n fwy newydd yno. Rydw i'n gwybod bod yr ysgol yma'n edrych yn hyfryd ac mae'n hanesyddol, ond mae gwell adeiladau yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Bydd y rhain yn well ar gyfer eich addysg a byddwch chi'n cael gwell defnydd ohonyn nhw. Dydyn ni ddim yn meddwl bod hon yn ysgol wael, ond dydy'r adeilad ddim yn dda iawn.

C. Beth sy'n ar gael ar gyfer disgyblion ar ôl 16 oed?

- A. Bydd modd i ddisgyblion fynychu'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, neu bydd modd dewis mynychu Coleg y Cymoedd.

C. Sut byddwch chi'n gwneud yn siwr bod yr holl blant yn mwynhau eu hysgol newydd?

- A. Mae'n debyg bydd gyda chi lawer o'r un athrawon. Hefyd, dywedoch chi eich

bod chi'n hoffi eich ystafelloedd dosbarth ond mae'n debyg bydd yr ystafelloedd dosbarth newydd yn well. Bydd cyfnod pontio haws ar gyfer disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 gan eu bod nhw yn yr ysgol yn barod. Byddwn ni'n ceisio gwneud yn siwr bod pawb yn hapus yno.

Rydyn ni wedi dod i siarad gyda chi er mwyn i ni gael eich barn chi. Os ydych chi'n trafod hyn gyda'ch dosbarth, mae croeso i chi roi gwybod i ni beth rydych chi a'ch ffrindiau'n meddwl am y cynlluniau.

Diolchodd disgybl i'r swyddogion oedd yn bresennol am ateb y cwestiynau roedd y disgyblion wedi'u paratoi.